*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1009

# Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 7) 2016

**Y diwrnod penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 23 Tachwedd 2016.

(2) Yn Rhan 1 (Rheoleiddio tai rhent preifat)—

(a) adran 4 (gofyniad i landlord fod yn gofrestredig);

(b) adran 5 (eithriadau i'r gofyniad i landlord fod yn gofrestredig) at bob diben sy'n weddill;

(c) adran 6 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau gosod) at bob diben sy'n weddill;

(d) adran 7 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau rheoli eiddo) at bob diben sy'n weddill;

(e) adran 8 (eithriadau i ofynion i landlord fod yn drwyddedig) at bob diben sy'n weddill;

(f) adran 9 (gofyniad i asiantau fod yn drwyddedig i ymgymryd â gwaith gosod);

(g) adran 10 (ystyr gwaith gosod) at bob diben sy'n weddill;

(h) adran 11 (gofyniad i asiantau fod yn drwyddedig i ymgymryd â gwaith rheoli eiddo);

(i) adran 12 (ystyr gwaith rheoli eiddo) at bob diben sy'n weddill;

(j) adran 13 (y drosedd o benodi asiant heb drwydded);

(k) adran 28 (erlyniad gan awdurdod trwyddedu neu awdurdod tai lleol);

(l) adran 29 (hysbysiadau cosbau penodedig) at bob diben sy'n weddill;

(m) adran 30 (gorchmynion atal rhent);

(n) adran 31 (dirymu gorchmynion atal rhent);

(o) adran 32 (gorchmynion ad-dalu rhent);

(p) adran 33 (gorchmynion ad-dalu rhent: darpariaeth bellach);

(q) adran 34 (pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adrannau 32 a 33) at bob diben sy'n weddill;

(r) adran 35 (troseddau gan gyrff corfforaethol);

(s) adran 40 (cod ymarfer) at bob diben sy'n weddill;

(t) adran 41 (canllawiau) at bob diben sy'n weddill;

(u) adran 42 (cyfarwyddiadau) at bob diben sy'n weddill;

(v) adran 43 (gweithgaredd sy'n groes i'r Rhan hon: effaith ar gytundebau tenantiaeth);

(w) adran 44 (cyfyngiad ar derfynu tenantiaethau); ac

(x) adran 46 (rheoliadau ar ffioedd) at bob diben sy'n weddill.

(3) Yn Rhan 2 o'r Ddeddf (Digartrefedd), adran 75(3) (dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben).

(4) Yn Rhan 4 o'r Ddeddf (Safonau ar gyfer tai cymdeithasol), adran 129 (cymhwyso dyletswyddau sy'n ymwneud â ffioedd gwasanaeth i denantiaethau awdurdod lleol).

(5) Yn Rhan 5 o'r Ddeddf (Cyllid tai), adran 131(1), (2), (3), (4)(a) a (b) (diddymu cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai).

(6) Yn Rhan 6 o'r Ddeddf (Caniatáu i gymdeithasau tai cwbl gydfuddiannol roi tenantiaethau sicr), adran 138 (diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988).